# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 20 Mai 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(199)v3

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)

Gweld y Cwestiynau

### 3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**Cynnig i ethol aelodau i Bwyllgorau**
**NDM5510 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Gwyn Price (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn lle

Vaughan Gething (Llafur).

**4 Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Cyflwyno Bil Addysg Uwch (Cymru) (60 munud)**

**5 Gorchymyn Rhestrau Ardrethu (Gohirio Gwneud Rhestrau) (Cymru) 2014 (15 munud)**

**NDM5508 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Rhestrau Ardrethu (Gohirio Gwneud Rhestrau) (Cymru) 2014 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Ebrill 2014.

**Dogfennau Ategol**
Gorchymyn Rhestrau Ardrethu (Gohirio Gwneud Rhestrau) (Cymru) 2014
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – *Dim pwyntiau adrodd*

**6 Dadl: Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb – Fframwaith Gweithredu (60 munud)**

**NDM5507 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi 'Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu' a'r Cynllun Cyflawni ategol, a lansiwyd ar 12 Mai 2014.

Gallwch weld copi o Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu drwy glicio ar y ddolen a ganlyn:

http://wales.gov.uk/topics/equality/rightsequality/hate-crime/?lang=cy

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r pryder a fynegwyd gan y Cyngor Cydraddoldeb Hiliol yng Nghyfarfod Fforwm Hil Cymru ar 13 Mawrth 2014 bod materion yn ymwneud â hil yn isel ar yr agenda i Lywodraeth Cymru.

Mae cofnodion cyfarfod 13 Mawrth 2014 ar gael ar gopi caled yn unig. Mae copïau ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu bod Llywodraeth y DU wedi sefydlu cofnodi a chyhoeddi troseddau casineb yn briodol am y tro cyntaf.

**Gwelliant 3 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gan gynghorau ysgol a llywodraethwyr ysgol, yn ogystal ag athrawon, teuluoedd a'r gymdeithas ehangach, rôl i'w chwarae i atal bwlio.

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 21 Mai 2014

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 15 Mai 2014 i'w hateb ar 20 Mai 2014

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi cael ei gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y berthynas rhwng cynhyrchu bwyd ac economi wledig Cymru? OAQ(4)1676(FM)

**2. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr adolygiad o'r broses Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol yng Nghymru? OAQ(4)1666(FM)

**3. Eluned Parrott (Canol De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol yng Nghymru? OAQ(4)1680(FM)

**4. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol gwasanaethau llywodraeth leol yng Nghymru? OAQ(4)1665(FM)

**5. Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymdrechion adfywio Llywodraeth Cymru yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)1664(FM)

**6. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am baratoadau ar gyfer uwchgynhadledd NATO yng Nghasnewydd? OAQ(4)1669(FM)

**7. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu mesurau i sicrhau y gall Cymru fanteisio i'r eithaf ar uwchgynhadledd NATO? OAQ(4)1678(FM)

**8. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am argymhellion Rhwydwaith Niwrogyhyrol Cymru ar gyfer buddsoddi mewn gofal niwrogyhyrol arbenigol yng Nghymru? OAQ(4)1668(FM) **TYNNWYD YNOL**

**9. Byron Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)1675(FM)

**10. Elin Jones (Ceredigion):** Beth yw gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol triniaeth y galon yng Ngheredigion? OAQ(4)1673(FM)**W**

**11. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am roi canllawiau Llywodraeth Cymru ar osod terfynau cyflymder lleol yng Nghymru ar waith ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)1674(FM)

**12. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi undebau credyd yng Nghymru? OAQ(4)1679(FM)

**13. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am addysg ôl 16 yn Nhorfaen? OAQ(4)1681(FM)

**14. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo datblygu trefol cynaliadwy? OAQ(4)1667(FM)

**15. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fanteision aelodaeth y DU o'r UE i Gymru? OAQ(4)1677(FM)

Eitem 2

## Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 13 Mai 2014 i'w hateb ar 20 Mai 2014

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

1. **Gwyn Price (Islwyn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth Llywodraeth Cymru i glybiau chwaraeon yn Islwyn? OAQ(4)0159(CS)

2. **Christine Chapman (Cwm Cynon)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella cyfleoedd chwaraeon yng Nghwm Cynon? OAQ(4)0154(CS)

3. **Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth o gyfleusterau chwaraeon ar Ynys Môn? OAQ(4)0161(CS)**W**

4. **Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflogau ac amodau yn Amgueddfa Cymru? OAQ(4)0162(CS) **TYNNWYD YNOL**

5. **Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymgysylltiad cymunedau â threftadaeth Cymru? OAQ(4)0165(CS)

6. **Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)**: Pa bryd mae'r Gweinidog yn bwriadu ymateb i argymhellion y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru? OAQ(4)0163(CS)**W**

**7. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar ddarlledu? OAQ(4)0166(CS)

**8. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei ymrwymiad i Barciau Cenedlaethol Cymru? OAQ(4)0164(CS)

**9. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau ynghylch Parciau Cenedlaethol y mae'n bwriadu eu cyflwyno yn 2014? OAQ(4)0153(CS)

**10. Leighton Andrews (Rhondda):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl ymddiriedolaethau cefnogwyr mewn pêl-droed? OAQ(4)0158(CS)

**11. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adfywio dan arweiniad treftadaeth yn y gogledd-orllewin? OAQ(4)0160(CS)**W**

**12. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar gymorth i ymddiriedolaethau llyfrgelloedd cymunedol? OAQ(4)0152(CS)

**13. Christine Chapman (Cwm Cynon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod plant a phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig yn gallu cael mynediad i gyfleoedd chwaraeon? OAQ(4)0155(CS)

**14. Russell George (Sir Drefaldwyn):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio llythrennedd corfforol i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc? OAQ(4)0157(CS)

**15. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu camau gweithredu Llywodraeth Cymru i wella mynediad parhaus i'r celfyddydau a threftadaeth yng Nghymru? OAQ(4)0156(CS)

# Eitem 3

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâ'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn cyfarfod, ac mae modd eu gweld yma**

**Toriad: Dydd Llun 26 Mai 2014 – dydd Sul 1 Mehefin 2014**
**Dydd Mawrth 3 Mehefin 2014 a dydd Mercher 4 Mehefin 2014**
**Dydd Mawrth 10 Mehefin 2014 a dydd Mercher 11 Mehefin 2014**
**Dydd Mawrth 17 Mehefin 2014 a dydd Mercher 18 Mehefin 2014**
**********************************************************************

**Dydd Mawrth 3 Mehefin 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Prif Weinidog: Adroddiad Blynyddol ar y Rhaglen Lywodraethu (60 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am Wyddoniaeth Cymru (30 munud)
- Dadl: Gwella Gofal Sylfaenol a Chymunedol (60 munud)
- Dadl: Llywodraethu Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru (60 munud)

**Dydd Mercher 4 Mehefin 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch yr Ymchwiliad i rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch gwaith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

- Dadl Fer – Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 10 Mehefin 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Datblygiad Glastir (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Rôl Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid wrth Fynd i'r Afael â'r Agenda Trechu Tlodi (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Trechu Tlodi Tanwydd drwy Effeithlonrwydd Ynni (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Model Cenedlaethol o Ddysgu Proffesiynol (45 munud)
- Dadl: Gwella Iechyd Meddwl (60 munud)

**Dydd Mercher 11 Mehefin 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar Araith y Frenhines (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Julie Morgan (Gogledd Caerdydd) (30 munud)

**Dydd Mawrth 17 Mehefin 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth Dwristiaeth (30 munud)

- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi: Cyflawni Teuluoedd yn Gyntaf (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Creu'r amgylchiadau ar gyfer twf gwyrdd (30 munud)

**Dydd Mercher 18 Mehefin 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Nick Ramsay (Mynwy) (30 munud)